ATODLEN 2

# RHAN 1

## Gwybodaeth a dogfennaeth sydd i fod ar gael mewn cysylltiad â phersonau sy'n gweithio mewn gwasanaeth

**1.** Prawf o bwy yw'r person gan gynnwys ffotograff diweddar.

**2.** Pan fo'n ofynnol at ddibenion cwestiwn sydd wedi ei esemptio yn unol ag adran 113A(2)(b) o Ddeddf yr Heddlu 1997(**1**), copi o dystysgrif cofnod troseddol ddilys a ddyroddir o dan adran 113A o'r Ddeddf honno ynghyd, ar ôl y diwrnod penodedig a phan fo'n gymwys, â'r wybodaeth a grybwyllir yn adran 30A(3) o Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006(**2**) (darparu gwybodaeth am waharddiadau ar gais).

**3.** Pan fo'n ofynnol at ddibenion cwestiwn sydd wedi ei esemptio ac a ofynnir at ddiben rhagnodedig o dan adran 113B(2)(b) o Ddeddf yr Heddlu 1997, copi o dystysgrif cofnod troseddol manwl ddilys a ddyroddir o dan adran 113B o'r Ddeddf honno ynghyd, pan fo'n gymwys, â gwybodaeth addasrwydd sy'n ymwneud â phlant (o fewn ystyr "suitability information relating to children" yn adran 113BA(2) o'r Ddeddf honno) neu wybodaeth addasrwydd sy'n ymwneud ag oedolion hyglwyf (o fewn ystyr "suitability information relating to vulnerable adults" yn adran 113BB(2) o'r Ddeddf honno).

**4.** Dau eirda ysgrifenedig, gan gynnwys geirda gan y cyflogwr diwethaf, os oes un.

**5.** Pan fo person wedi gweithio'n flaenorol mewn swydd yr oedd ei dyletswyddau yn cynnwys gweithio gyda phlant neu oedolion hyglwyf, cadarnhad, i'r graddau y bo'n rhesymol ymarferol, o'r rheswm pam y daeth y gyflogaeth neu'r swydd i ben.

**6.** Tystiolaeth ddogfennol o unrhyw gymhwyster perthnasol.

**7.** Pan fo'n berthnasol, tystiolaeth ddogfennol o gofrestriad â Gofal Cymdeithasol Cymru.

**8.** Hanes cyflogaeth llawn, ynghyd ag esboniad ysgrifenedig boddhaol o unrhyw fylchau mewn cyflogaeth.

**9.** Tystiolaeth o allu ieithyddol boddhaol at ddibenion darparu cymorth i'r unigolion hynny y mae'r gweithiwr i ddarparu cymorth ar eu cyfer.

**10.** Manylion cofrestriad ag unrhyw gorff proffesiynol neu aelodaeth o gorff o'r fath.

---

(**1**) 1997 p. 50.
(**2**) 2006 p. 47. Mae adrannau newydd 30A a 30B i'w rhoi yn lle adrannau 30 i 32 o Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 fel y'u deddfwyd yn wreiddiol o ganlyniad i amnewidiadau a wnaed gan adran 72(1) o Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012. Mae adran 72(1) i'w chychwyn ar ddiwrnod i'w benodi.